Teleofal Caerdydd
Gwasanaeth Ymateb a Wardeiniaid

Synhwyrydd Llifogydd

Beth yw'r Synhwyrydd Llifogydd?

Mae'r synhwyrydd llifogydd yn synhwyrydd radio twt, nad yw'n amlwg, sy'n rhoi rhybudd buan o sefyllfaoedd a all arwain at lifogydd. Gellir gosod y synhwyrydd llifogydd ar lawr wrth sinc neu mewn ystafell ymolchi, wrth y toiled neu'r bath.

Beth yw Manteision Defnyddio'r Synhwyrydd Llifogydd?

Gall sinc neu doiled wedi eu blocio neu dapiau wedi eu gadael i lifo arwain yn sydyn at lifogydd ac felly ddifrodi carpedi, addurniadau ac offer trydanol a gall y canlyniadau fod yn beryglus. Gall ôl effeithiau'r llifogydd arwain at gostau trwsio uchel a chynnydd ym mhremiwm eich yswiriant, a hefyd niwed tymor hir i iechyd, yn enwedig yn y gaeaf.

Sut mae'r Synhwyrydd Llifogydd yn gweithio?

Mae gan y ddyfais dri synhwyrydd. Pan mae dau o'r tri mewn cyswllt â dŵr, mae'n rhoi dau fath o larwm: mae'r cyntaf yn larwm sain sydd i'w glywed yn agos, ac mae'r ail yn anfon signal i uned gartref Lifeline neu alwr CareAssist. Mae uned gartref Lifeline yn anfon galwad i'n canolfan reoli yn awtomatig, a gall y derbynnydd adnabod pa fath o synhwyrydd sydd wedi anfon yr alwad er mwyn gallu gweithredu yn y dull mwyaf addas a sydyn.

Teleofal Caerdydd
Gwasanaeth Ymateb a Wardeiniaid

Ar gyfer pwy mae’r Synhwyrydd?

Mae’r Synhwyrydd Llifogydd yn cynnig sicrwydd ychwanegol i unrhyw berchennog neu breswylydd ac mae’n diogelu'r rhai sy'n debygol o fod mewn perygl o adael y tapiau'n llifo.

Cynnyrch Cysylltiedig...